



Ein cyf/Our ref: qA1380954

Ian Llewelyn
Rheolwr Blaen-gynllunio
Lleoedd a Chynaliadwyedd
Adran yr Amgylchedd
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Spilman Street
Caerfyrddin
SA31 1LE

2 Ionawr 2024

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin: 3^{ydd} Diwygiad y Cytundeb Cyflawni

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)

Diolch i chi am eich e-bost dyddiedig 19 Rhagfyr yn gofyn am gytuno i ddiwygio eich Cytundeb Cyflawni (DA) i ymgymryd â Newidiadau Penodol ar yr Asesiad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

Mae dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae bod â chynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu o dan arweiniad cynlluniau.


Mae'r cynllun yn offeryn corfforaethol ac yn fynegiant defnydd tir o flaenoriaethau ACLI wrth ddelio â materion cenedlaethol a lleol ac mae'r Cytundeb Cyflawni yn ymrwymiad gan eich awdurdod i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol hyn. Mae eich Cyngor yn cynnig estyniad ffurfiol i'r amserlen y cytunwyd arni ar hyn o bryd, sy'n arwain at oedi o 7 mis wrth gyflwyno'r cynllun i'w archwilio ym mis Mawrth 2024 a rhagwelir y bydd yn cael ei fabwysiadu erbyn Mehefin 2025 (Tabl 2). Nodir y rheswm dros yr oedi gan yr ystyrir bod y Newidiadau Ffocws yn angenrheidiol i'r holl randdeiliaid a phartïon sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau ar yr ISA a'r HRA, gan gynnwys ychwanegion. Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thystiolaeth gadarn yn hanfodol i sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 2 ac Atodiad 1 y Cytundeb Cyflawni gydag amser ychwanegol o 3 mis wrth gefn.

Prawf 'cadernid' y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio a'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a nodir yn Nhabl 2 ac Atodiad 1 fel y darperir ar ei chyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir



Neil Hemington
Prif Gynllunydd
Chief Planner

COPI AT:

Rhodri Griffiths, Penaeth Lleoedd a Chynaliadwyedd, Adran yr Amgylchedd
RDGriffiths@cararthenshire.gov.uk